***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 13

(a gyflwynir gan adran 162)

## DIDDYMU'R PŴER I GYNNAL PLEIDLEISIAU O GANLYNIAD I GYFARFODYDD CYMUNEDOL O DAN DDEDDF 1972

### *Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)*

1 Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

2 Hepgorer adrannau 33B a 33C (ymateb prif gyngor i fynnu cynnal pleidlais mewn cyfarfod cymunedol).

3 Yn adran 150(7) (treuliau cynnal pleidleisiau)—

(a) hepgorer, yn yr ail le y mae'n digwydd, "or community";

(b) ar ôl "meeting", yn yr ail le y mae'n digwydd, mewnosoder "or of a community governance poll (as to which, see paragraph 34(8) of Schedule 12)".

4 Yn adran 243(3) (cyfrifo amser)—

(a) hepgorer "or community";

(b) ar ôl "meeting" mewnosoder "or a community governance poll (as to which, see paragraph 34(8) of Schedule 12)".

5 Yn Atodlen 12, hepgorer paragraffau 26A a 29A (ymateb gan gyngor cymuned i gynnal pleidlais gymunedol).

6 (1) Yn Atodlen 12, mae paragraff 34 (cyfarfodydd cymunedol yn gwneud penderfyniadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), yn lle "poll consequent thereon" rhodder "community governance poll".

(3) Yn is-baragraff (2)—

(a) hepgorer ", in the first instance,";

(b) hepgorer "unless a poll is demanded".

(4) Hepgorer is-baragraff (4).

(5) Yn lle is-baragraffau (5) a (6) rhodder—

"(5) The Welsh Ministers may by regulations make provision about the conduct of community governance polls.

(6) Regulations under sub-paragraph (5) may apply any enactment relating to elections or referendums (with or without modifications) to community governance polls.

(7) A statutory instrument containing regulations under sub-paragraph (5) is subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru."

(6) Ar ddiwedd paragraff 34 mewnosoder—

"(8) In this Part of this Schedule, "community governance poll" means a poll held on a proposal of a kind mentioned in section 27A, 27C, 27E, 27G, 27I or 27K."

7 Ym mharagraff 37 o Atodlen 12 (benthyca blychau pleidleisio etc.), yn is-baragraff (1) yn lle "poll consequent on a community meeting" rhodder "community governance poll".

8 Ym mharagraff 38 o Atodlen 12 (troseddau) yn lle "poll consequent on a community meeting" rhodder "community governance poll".

9 Yn Atodlen 12, hepgorer paragraffau 38A a 38B (hysbysu prif gyngor am ganlyniad cynnal pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol).

### *Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42)*

10 Yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn adran 5 hepgorer is-adran (8B) (swyddogaethau swyddogion monitro mewn perthynas â chynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfod cymunedol).

### *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)*

11 Ym Mesur 2011, hepgorer adrannau 93 i 99.

### *Y Ddeddf hon*

12 Yn y Ddeddf hon, hepgorer paragraff 1(8) o Atodlen 2 (diwygio paragraff 34 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972).